

Cyfeirnod(au) y Papur

6957/01

Edexcel GCE

Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu Gymhwysol

Uned 7: Defnyddio Meddalwedd Cronfa Ddata

Mai 2009

Senario

Agorwch y deunydd hwn ar unwaith. Dylai gael ei ddsbarthu i ymgeiswyr o leiaf dair wythnos waith cyn yr arholiad.

Sylwer: Nid oes ffeiliau ymarfer ar gyfer yr arholiad hwn.

Caiff y disgrifiad drosodd ei ddefnyddio fel senario ar gyfer y fanyleb uchod, a chaiff ei ailddosbarthu gyda'r papur arholiad. Dylai'r senario hwn gael ei ddefnyddio at ddiben paratoi ymgeiswyr ar gyfer yr arholiad. Ni chaniateir mynd â'r deunydd hwn i mewn i'r arholiad.

Mae mwy o fanylion i'w cael yn y Cyfarwyddiadau ar gyfer Cynnal Arholiadau, sydd ar gael o wefan Edexcel ar gyfer y cymhwyster a'r pwnc hwn.

Ni fydd Edexcel yn derbyn unrhyw gais am ystyriaeth arbennig os rhoddir y senario anghywir i ymgeiswyr ar gyfer yr arholiad y maent yn ei sefyll.

Rhif Log yr Argraffwr

N36592A




W850/R6957/57570 1/

Gellir atgynhyrchu'r cyhoeddiad hwn yn unol â pholisi hawlfraint Edexcel Limited yn unig. ©2009 Edexcel Limited.

Trowch y dudalen

edexcel 
advancing learning, changing lives



Yn ystod y 1960au roedd y llywodraeth yn berchen ar rwydwaith gyfan y rheilffordd. Y pryd hwnnw, gwelwyd symud ymhlith teithwyr a nwyddau oddi ar y rheilffordd ac i'r ffordd fawr, gan wneud rhai o'r llwybrau trenau yn amhroffidiol (*unprofitable*). O ganlyniad, caewyd nifer fawr o leiniau'r rheilffordd. Y rhai a gafodd eu cau yn bennaf oedd leiniau cangen drwy ardaloedd gwledig lle nad oedd nifer y teithwyr yn gallu cyfiawnhau cadw'r gorsafoedd ar y leiniau hynny ar agor.

Prynwyd nifer o'r leiniau hyn, nad oeddent yn cael eu defnyddio, gan grwpiau o bobl â diddordeb mewn trenau stêm a gwnaethon nhw adnewyddu'r leiniau. Gwnaethon nhw brynu ac adnewyddu hen injans stêm a cherbydau teithwyr gan redeg y leiniau fel atyniadau i dwristiaid. Mae un o'r leiniau hyn yn rhedeg drwy gefn gwlad Surrey ac fe'i gelwir yn "Rheilffordd Dyffryn y Ceirw" oherwydd nifer y ceirw sydd i'w gweld yn yr ardal. Agorwyd y lein gyntaf ym 1974 a'r enw ar hon oedd lein y Genhinen Bedr. Sicrhaodd nifer fawr o wirfoddolwyr fod y trac yn gweithio'n dda, roeddent yn gyrru'r trenau, yn gwerthu tocynnau ac yn cynnal a chadw adeiladau'r orsaf. Erbyn 1979 roedd dwy lein arall, leiniau'r Tiwlip a'r Croeso Haf (*Hyacinth*), wedi agor. Mae Rheilffordd Dyffryn y Ceirw wedi cael ei rhedeg fel atyniad llwyddiannus iawn i dwristiaid byth ers hynny.

Ar ôl agor y leiniau newydd, penderfynodd y cwmni ei fod eisiau cynnal digwyddiad hyrwyddo i hysbysebu'r gwasanaethau newydd ac fe greodd y syniad o "Brofiad Dyffryn y Ceirw". Cynigiodd y cwmni y bydd tri thrên arbennig yn rhedeg bob dydd ar Lein y Tiwlip ar 2 a 3 Gorffennaf. Bydd y thrên yn aros mewn manau o ddiddordeb lle cynhelir teithiau tywys (*guided tours*) a bydd pryd o fwyd o safon, wedi'i goginio gan gogydd adnabyddus, yn cael ei weini yn y tŷ bwyta yng ngorsaf Prestwell.

Mae'r cwmni'n dymuno defnyddio ei wefan i hysbysebu ac i gymryd bwciadau ar gyfer "Profiad Dyffryn y Ceirw". Mae angen cronfa ddata sy'n caniatáu i ddefnyddwyr y wefan gadw seddi ar y trenau arbennig hyn. Gofynnwyd i chi gynhyrchu'r gronfa ddata hon.

Nodyn pwysig: Nid oes angen cynhyrchu gwefan ryngweithredol (*transactional*) yn yr arholiad. Wrth ddylunio ac adeiladu'r gronfa ddata, defnyddiwch y ffurfiau safonol sy'n cael eu darparu gan eich system rheoli cronfa ddata.


Yn gyfan gwbl, bydd chwe thrên arbennig, tri bob dydd. Bydd y trenau yn gadael o orsaf Linfield am 09:00, 11:30 ac 13:00. Bydd gan bob thrên injan a phedwar cerbyd 32 sedd, yn union yr un peth, wedi'u labelu yn A, B, C a D. Mae gan bob cerbyd wyth rhan, pedwar ar bob ochr i eil (*aisle*). Mae pob rhan yn cynnwys dau bâr o seddi, un pâr yn wynebu am ymlaen ac un pâr yn wynebu am yn ôl. Bydd gan bob pâr o seddi sedd wrth y ffenestr a sedd wrth yr eil. Bydd gan seddi unigol god sy'n cynnwys label y cerbyd (A, B, C neu D) ac yna rhif dau ddigid yn ei ddilyn.

Mae'r cwmni eisiau cael system a fydd yn caniatáu i gwsmeriaid fynd at ffurflen ragarweiniol lle mae'n rhaid iddynt gofnodi'r dyddiad a'r amser pan fyddant yn dymuno mynd ar "Brofiad Dyffryn y Ceirw". Ar yr un ffurflen mae'n rhaid iddynt hefyd gofnodi a ydynt eisiau wynebu am ymlaen neu am yn ôl ac a ydynt eisiau cael sedd wrth y ffenestr neu wrth yr eil. Bydd y system wedyn yn mynd â'r cwsmer at sgrin arall, sgrin y cwsmer, lle mae'n rhaid iddynt roi eu manylion personol a dewis sedd o'r seddi sydd ar gael, a fydd yn cael eu dangos mewn blwch cwmpo (*drop-down box*), sy'n cyfateb i'r meini prawf a gofnodwyd ganddynt ar y ffurflen ragarweiniol.

Bydd rhaid i'r cwsmer gofnodi o leiaf eu cyfenw, llinell gyntaf eu cyfeiriad a'u cod post. Bydd dewis ar y ffurflen hon i gadarnhau neu i ganslo'r bwciad. Os caiff y botwm canslo ei bwysu yna ni chaiff dim ei storio. Os caiff y botwm cadarnhau ei bwysu yna caiff gwybodaeth adnabod unigryw (Dull Adnabod Cwsmer), sy'n cynnwys tair llythyren gyntaf eu cyfenw yna rhif pedwar-digid, ei rhoi i'r cwsmer. Bydd data'r cwsmer wedyn yn cael ei gadw a bydd y sedd yn cael ei bwcio drwy gysylltu eu gwybodaeth adnabod â'r bwciad sedd perthnasol, a bydd y system yn cael ei diweddarau. Os yw sedd yn parhau i fod ar gael yna bydd yn cynnwys y gair "Rhydd" yn lle dull adnabod cwsmer.

Yn ddiweddarach bydd y tocynnau'n cael eu hargraffu a'u hanfon at y cwsmeriaid. Ar y diwrnod pan fydd y trenau'n rhedeg, bydd cardiau'n cael eu hargraffu sy'n cynnwys rhif y sedd a gwybodaeth adnabod y cwsmer. Bydd y rhain yn cael eu gosod mewn daliwr ar dop y sedd i ddangos i'r cwsmeriaid lle y dylent eistedd.

Map o Reilffordd Dyffryn y Ceirw



TUDALEN WAG